**Cofnodion Cyfarfod 04/01/2021 - drwy Zoom**

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| L T Davies | D M Evans (Yn y gadair) |
| M Davies | W A Roberts |
| H Clayton | J S Jenkins |
| M Evans | G A Williams |
| G Jones | Cynyr Ifan |

**Cofnodion**

Cynigiwyd cofnodion mis Rhagfyr yn gywir gan y Cyng J S Jenkins ac ategwyd hyn gan y Cyng  M Evans.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**

*Dŵr Cymru*  Deallir fod y cwmni yn bwriadu dechrau ar y gwaith o ail osod y biben carthffosaeth dydd Llun 11.1.2021.

*Heol Hawen/Heol y Garreg* Mae'r llain borfa ger y safleoedd yma bellach wedi ei dorri.

*Cae Cymunedol* Mae'r clerc wedi e-bostio Bronwen Morgan-James gyda chais i'r pwyllgor drefnu i'r clawdd a'r coed gael eu torri. Y mae hefyd wedi cael sgwrs gyda Bronwen. Mae'n debygol y bydd Pwyllgor y cae yn cyflwyno cais am gymorth ariannol i'r Cyngor Cymuned gan nad ydynt wedi medru cynnal gweithgareddau codi arian yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wnaeth y Cyng D M Evans hefydd adrodd y bydd yn gofyn i'r contractwr sy'n mynd i dorri coed o amgylch y neuadd i roi pris am y gwaith o amgylch y cae cymunedol.

**Ceisiadau Cynllunio**

A190906 – Greenfields Caravan Park, Plwmp – Newid defnydd o 50 carafannau symudol i 40 o garafannau statig ynghyd a gwaith cysylltiedig ynghyd a gwaith i wella ecoleg y safle – Wnaeth y Cadeirydd adrodd fod ein sylwadau i'r cais gwreiddiol yn dal i fod yn ddilys ar gyfer y newidiadau diwygiedig.

A201001 – Maelfa Crannog Uchaf, Llangrannog – Estyniad i'r annedd – Mynegwyd gwrthwynebiad i'r cais am nifer o resymau. Mae'r datblygiad arfaethedig allan o gymeriad i weddill adeiladau'r ardal ac ddim yn gweddu o gwbl. Mae yna bryder ynglŷn â'r modd y bydd rhaid cloddio safle mewn ardal lle mae'r tir yn fregus iawn ac mi allai'r datblygiad achosi tirlithriad. Mi fu yna dirlithriad yn agos iawn rhai blynyddoedd yn ôl ac felly mi fydd angen i'r datblygwr ddarparu datganiad ar sut y maent yn bwriadu sefydlu'r tir o gwmpas y safle. Mae maent y datblygiad yn mynd i achosi cynydd enfawr i'r adeilad presennol – mwy na 50% o'r maint gwreiddiol.Yr  ydym ar ddeall fod yna canllawiau ynghylch maint unrhyw estyniad. Felly mae angen i'r Adran Gynllunio sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau perthnasol. Mae'r lôn sy'n arwain at yr annedd yn gul iawn ac mi fydd y datblygiad yn lleihau'r adnodd parcio ynghyd a chreu problem gyda'r fynedfa.

**Gohebiaeth**

*Trefniadau'r Praesept*  Wnaeth y clerc baratoi adroddiad ariannol ar gyfer y Cynghorwyr. Penderfynwyd gadael lefel y praesept yr un fath a'r flwyddyn gyfredol. Mi fydd y clerc yn cyflwyno cais am £10,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

*Barcud* Derbyniwyd llythyr yn diweddaru'r Cynghorwyr am uniad Tai Ceredigion a Thai Canolbarth Cymru i greu Barcud Cyf.

*Cylch yr Iaith* Mi fydd y clerc yn dosbarthu'r ddogfen Cylch yr Iaith ynglŷn â Chyflogaeth a Thwristiaeth yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn cynnwys tystiolaeth ystadegol ynglŷn â thwristiaeth, ac argymhellion ynghylch sut y gellid ei gwella er budd cymunedau.

*Maes Parcio* Wnaeth y clerc adrodd ei bod wedi derbyn llythyr oddi wrth Chris Bradley yn cwyno ynglŷn â'r modd yr oedd wedi derbyn dirwy parcio ym maes parcio ger y 'Ship'.

*Capel y Wig* Derbyniwyd e-bost oddi wrth y Parchedig Carys Ann yn diolch am gefnogaeth y Cyngor Cymuned at y cais am grant i ail wneud y Tŷ Capel.

**Taliadau**

| | |
|---|---|
| Barcud – 'Wayleave' Blaencelyn | £ 1.00 |
| Swyddfa'r Post - stampiau | £80.00 |

**Unrhyw Fater Arall**

*Sbwriel* Nid ydy sbwriel yr ardal wedi ei gasglu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mi wnaeth y Cyng J S Jenkins fynegu nad ydy'r sefyllfa yn dderbyniol. Mi fydd y Cadeirydd yn danfon e-bost at y Cyng G James ynglyn a'r sefyllfa.

*Rheiliau ger y Patio* Mae angen adnewyddu'r rheiliau yma gan ei bod mewn cyflwr gwael. Gofynnwyd i cynrychiolwyr y Pwyllgor Lles i ddod a'r mater ger bron y Pwyllgor. Mae angen iddynt gael pris ar gyfer y gwaith. Mae yna gynnig iddynt gyflwyno cais am gymorth ariannol tuag at y cost cysylltiedig.

Llwybr Cyhoeddus Deallir fod y Pwyllgor Lles yn ymdrechu i ddod o hyd i wybodaeth swyddogol ynglyn a'r llwybr sy'n arwain o Lochtyn i lawr at Cilborth ac o flaen y patio. Wnaeth y Cyng J S Jenkins awgrymu y dylent gysylltu gydag Eifion Jones o'r Cyngor Sir.

*Jamsons* Mi fydd y clerc yn cysylltu gyda'r cwmni er mwyn sefydlu a ydynt yn bwriadu tacluso'r clawdd rhwng Argoed a ble maent eisoes wedi torri gweddill y clawdd.

*Craciau yn y ffordd* Mae craciau yn y ffordd sy'n arwain o Pentre Arms i fyny at Sea View. Mi fydd y clerc yn cysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

*Blwch Halen* Mi fyddwn yn sefydlu a oes modd i'r Cyngor Sir ddarparu blwch halen ar gyfer ffyrdd ar y tro ger Cerflun Saint Crannog.

*Torri Coed* Mae angen torri'r gordyfiant coed ger Allt Tredwr. Mi fydd y clerc yn dilyn i fyny ein cais blaenorol i'r Cyngor Sir.

*Dŵr ar y ffordd* Mae dŵr yn gorlifo allan i'r ffordd ger Ffynnonddewi a St Davids Villa. Fel canlyniad mae'r dŵr wedi bod yn rhewi yn ystod y cyfnod tywydd rhewllyd diweddar. Mi fyddwn yn cyflwyno cais i'r Cyngor Sir i edrych ar y posibilrwydd o gyfeirio'r dŵr i fewn i gwter gyfagos.

*Blwch Ffôn Llangrannog* Cytunwyd y dylid cysylltu gyda chwmni BT i sefydlu a oes modd iddynt ddarparu ffôn ar gyfer gwneud galwadau brys yn unig. Mae cyflwr y blwch presennol wedi dirywio yn sylweddol ac yn edrych yn anniben erbyn hyn.

.